**Tasg 1**

# Tŷ'r Hobit

1. Mewn grŵp, trafodwch y cwestiynau yma:

   - Ydych chi wedi gweld y ffilm *The Hobbit*?
     Pryd?
     Ble?
     Gyda pwy?
     Beth ydy'ch barn chi am y ffilm?
   - Ydych chi wedi darllen y nofel *The Hobbit*?
     Pryd?
     Beth ydy'ch barn chi am y nofel?
   - Ydych chi wedi chwarae'r gêm cyfrifiadur *The Hobbit*?
     Pryd?
     Beth ydy'ch barn chi am y gêm?

2. Dwedwch wrth grŵp arall am y bobl yn eich grŵp chi, e.e.

**Mae … wedi …**

**Dydy … ddim wedi …**

**Mae … yn meddwl bod …**

**Geirfa**

| | | | |
|---|---|---|---|
| trafod | (to) discuss | brawddeg | sentence |

3. Edrychwch ar luniau 1 a 2.
   Ysgrifennwch 4 brawddeg i ddisgrifio'r tŷ.
   Cymharwch eich brawddegau chi gyda brawddegau'ch partner chi.

4. Darllenwch y darn am Dŷ'r Hobit yng Nghymru eto ac yna ysgrifennwch **Cywir** neu **Anghywir** wrth ochr y brawddegau.

| | | **Cywir? / Anghywir?** |
|---|---|---|
| a. | Mae'r tŷ yn Sir Benfro. | |
| b. | Mae teulu'n byw yn y tŷ. | |
| c. | Mae'r tŷ ar ben bryn. | |
| ch. | Mae'r tŷ'n oer iawn. | |
| d. | Mae Simon wedi prynu popeth newydd yn y tŷ. | |

**Geirfa**

| | | | |
|---|---|---|---|
| ar ben bryn | on top of a hill | brawddeg | sentence |

5. Edrychwch ar y lluniau o Dŷ'r Hobit yn Sir Benfro ar y gwefannau yma:

   http://inhabitat.com/extraordinary-off-grid-hobbit-home-in-wales-only-cost-3000-to-build/olympus-digital-camera-59

   http://www.simondale.net/hobbit.htm

   Beth ydy'ch barn chi am y tŷ yma?
   Ysgrifennwch eich syniadau chi. Cofiwch roi rhesymau.

6. Trafodwch y cwestiwn yma mewn grŵp.

Beth ydy’ch barn chi am y tŷ yma?

Rydych chi’n gwybod llawer o batrymau i fynegi barn nawr, ond cofiwch ddefnyddio’r geiriau pwysig yma hefyd:

Yn bersonol, …

Yn union!/ Yn hollol!

Yn fy marn i …

Dw i’n cytuno cant y cant.

… heb os nac oni bai …

7. Hoffech chi fyw yn y tŷ yma?
Trafodwch y cwestiwn mewn grŵp. Cofiwch roi rhesymau.

Hoffet ti …?

Hoffwn, achos …

Na hoffwn, achos …

**Geirfa**

| | | | |
|---|---|---|---|
| mynegi barn | (to) express an opinion | | |
| gwefannau | websites | pwysig | important |